

Cronfa Dechrau Busnes – Meini prawf y gronfa.

Bydd eich cais yn cael ei farcio'n annibynnol gan ddau aelod o staff a'i sgorio gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol. Y sgôr uchaf posibl ar gyfer cais yw 40. Gall ceisiadau sy'n sgorio 28 neu uwch yn gael cyllid heb unrhyw amodau pellach. Gall ceisiadau sy'n sgorio rhwng 24 a 28 pwynt gael cyllid gydag amodau ychwanegol. Bydd angen i geisiadau sy'n sgorio 23 pwynt neu'n is ailgyflwyno cais ar ôl ymateb i'r adborth.

Gellid dyfarnu cyllid gyda sgôr isel neu hyd yn oed sero mewn un neu fwy o'r meini prawf isod. Gallwn eich cynorthwyo gyda chais, felly os oes angen cymorth ychwanegol arnoch gydag agweddau ar eich cais [cofrestrwch gyda ni](#), neu cysylltwch â'ch Cynghorydd Busnes.

Bydd pob cais yn derbyn adborth manwl gan y Ganolfan Entrepreneuriaeth ac anogir y rhai nad dydynt yn llwyddiannus i ymateb i'r adborth, i ddiwygio eu cais a'i hailgyflwyno.

Mae'r adrannau gwyrdd yn cyfeirio at ddogfennau penodol. Mae'r adrannau oren yn cyfeirio at y cais yn ei chyfanrwydd.

Busnes Ar Dudalen	1-2 Mae'n crynhoi eu busnes/brand / cwsmeriaid / marchnata yn ddigonol ond lle i wella dyluniad a / neu gynnwys. Yn cynnwys pynciau perthnasol gyda gwybodaeth yn cael ei harddangos gan ddefnyddio cyfuniad o destun ac elfennau graffigol.	3-4 Wedi'i ysgrifennu'n dda ac wedi'i ddylunio'n greadigol, ac yn drawiadol. Mae'r BAD yn dangos dealltwriaeth glir o'r busnes/brand/ cyllid / marchnad darged / marchnata yn ogystal â thaction a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.	5 BOP safon broffesiynol gyda safon uchel o gyflwyniad a chynnwys sy'n dangos ymwybyddiaeth fasnachol a dealltwriaeth ddofn o werth y sefydliad arfaethedig.
Cynfas Model Busnes	1-2 Bydd pob elfen o'r BMC wedi cael sylw er y gallai rhai adrannau gynnwys elfennau aneglur neu anhysbys o hyd – mae "?" yn dderbyniol. Bydd adrannau'n gryno, a bydd modd	3-4 Yn mynd i'r afael â'r 9 maen prawf hanfodol yn eglur ac yn dangos dealltwriaeth gref o'r busnes. Bydd cysylltiad cryf rhwng y Cynnig Gwerth, Segmentau Cwsmeriaid a Gweithgareddau Allweddol.	5 Mae pob un o'r 9 maes wedi'u cwblhau, ac mae'r ymgeisydd hefyd wedi dangos eu bod yn deall pa elfennau sy'n rhagdybiaethau ac sydd wedi'u dilysu. Bydd y Model Busnes yn dangos ymagwedd arloesol tuag at

	deall y rhan fwyaf o'r model busnes o'r CMB.		lwyddiant neu effaith fasnachol.
Fideo Cynnig Syniad Busnes	1-2 Mae'r fideo yn un cynnig, o fewn yr amser a ganiateir. Efallai nad oes strwythur ar y fideo ond bydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y syniad.	3-4 Cynnwys fideo creadigol a phroffesiynol gyda chyflwyniad camera dilys a sgrïpt glir. Bydd yr ymgeisydd wedi cynnwys cyfryngau perthnasol fel delweddau cynnyrch, a bydd y fideo yn dechrau/gorffen gyda'u logo a'u manylion cyswllt.	5 Bydd y cynnwys a'r cyfansoddiad o safon broffesiynol. Bydd y cynnig syniad busnes ei hun yn dilyn strwythur clir gyda dadl gymhellol a fydd yn gadael y gynulleidfa eisïau cefnogi'r fenter. Bydd y fideo wedi cael ei olygu'n broffesiynol ac yn cynnwys brandio cryf, elfennau uwch fel saethiadau lluosog, trac sain, ac elfennau creadigol. Bydd yn hygyrch yn ddigidol.
Ariannol	1-2 Mae gwybodaeth ariannol yn cael ei chyflwyno'n wael, ni ddefnyddir datganiadau confensiynol, neu mae'r amcanestyniadau yn afrealistig/yn seiliedig ar waith dyfalu pur.	3-4 Mae'n debygol mai dim ond amcanestyniad llif arian a ddarperir. Amcanestyniad sydd efallai'n afrealistig, heb rywfaint o wybodaeth hanfodol, ond bydd yn rhoi hyder rhesymol bod y busnes yn hyfyw yn ariannol.	5 Mae'r tri datganiad ariannol (Datganiad Incwm, Amcanestyniadau Llif Arian a Thafluniad Datganiad o Sefyllfa Ariannol) wedi'u cwblhau am 1-3 blynedd. Mae amcanestyniadau ariannol yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol sydd wedi'u nodi'n glir, ac sydd wedi dechrau cael eu dilysu – neu sy'n seiliedig ar fasnachu profion/MVP
Cyflwyniad Syniad Busnes/ Cynllun Marchnata	1-2 Nid oes fawr o hyder neu ddim hyder bod gan yr ymgeisydd gynllun marchnata realistig y gellir ei weithredu i ennill cwsmeriaid newydd. NEU mae'r cyflwyniad syniad busnes yn anghyflawn.	3-4 Cynllun marchnata Bydd hyn wedi'i gyflwyno'n dda, gan roi hyder bod y cwsmer yn cael ei ddeall yn dda a bod dealltwriaeth dda o ddulliau marchnata y gellir eu defnyddio i ddenu cwsmeriaid newydd. Cyflwyniad Syniad Busnes Bydd y cyflwyniad syniad busnes yn nodi elfennau allweddol y busnes gan	5 Cynllun marchnata Cynllun marchnata cyflawn sy'n 'barod i fynd' - dylai hyn ddangos dealltwriaeth fanwl o'r farchnad, segmentiad, anghenion y farchnad. Dylai fod llwybr clir i'r farchnad gydag ystod o weithgareddau marchnata sydd wedi'u hystyried yn dda sy'n cael eu hariannu ac yn barod i

		gynnwys problem, datrysiad, gweithrediadau, marchnata, ymchwil, tîm, arianiannol. Gall y cyflwyniad fod yn iawn yn hytrach na gwych.	fynd. Bydd y Cyflwyniad Syniad Busnes yn barod i'w rannu gyda buddsoddwyr. Bydd yn rhoi digon o wybodaeth i'r gynulleidfa am y busnes i wneud penderfyniad gwybodus am gamau yn y dyfodol. Dylai ddangos yn glir werth masnachol neu gymdeithasol y fenter yn y dyfodol.
Manylion y Gwariant Arfaethedig	1-2 Yn deall ac yn egluro gwariant cyllid gyda chynnwys a thystiolaeth sylfaenol. Bydd y cyllid yn cefnogi cynnydd.	3-4 Esboniad manwl o gyllid arfaethedig gyda hypergysylltiadau a lluniau/dyfyniadau. Bydd yr ymgeisydd wedi dangos yn glir sut y bydd y gwariant yn eu helpu i gymryd y cam nesaf i ddatblygu eu busnes.	5 Bydd y gwariant arfaethedig yn cael ei gysylltu â'r amcanestyniadau Llif Arian gydag arddangosiad clir o sut y bydd y cyllid hwn yn cefnogi datblygiad a llwyddiant y fenter yn y dyfodol. Bydd yn dangos yn realistig pa gyllid y gallai fod ei angen yn y dyfodol ac o ble y gallai hyn ddod.
Cynaliadwyedd	1-2 Mae'r cais yn cydnabod yr effaith y gallai'r syniad ei chael ar y gymdeithas a'r blaned ac mae cyfeiriad at ffyrdd o leihau'r effaith hon.	3-4 Bydd y syniad yn cael effaith gadarnhaol ar naill ai'r gymdeithas neu adnoddau'r blaned. Bydd yn disodli'r defnydd presennol gyda gweithgaredd effaith is neu bydd yn defnyddio ffrydiau gwastraff. Mae'r cynnig gwerth yn seiliedig ar leihau neu ddileu her gymdeithasol neu amgylcheddol.	5 Bydd y cais yn dangos bod gan yr ymgeisydd ddealltwriaeth glir o gydgyssylltiad y system economaidd, gymdeithasol a'r blaned rydym yn gweithredu ynddi. Bydd y syniad yn mynd i'r afael â mwy nag un o'r 17 SDG i bob pwrpas a bydd yn cael effaith gadarnhaol trwy ei actuation.
Ansawdd Cyffredinol	1-2 Cais da sy'n cwmpasu'r pethau sylfaenol sydd eu hangen i gaffael cyllid. Bydd cysylltiad clir rhwng pob elfen o'r cais er y gall rhai	3-4 Cais ardderchog gyda BAD a CMB trawiadol. Fideo cyflwyno syniad busnes deniadol a thrawiadol yn greadigol gyda dealltwriaeth gref busnes/cyllid/sylfaen	5 Safon broffesiynol o gymhwyso sy'n dangos cryfder a chysondeb o frandio a gwerth trwy bob elfen o'r cais. Bydd y BAD / CMB yn cael ei gefnogi gan amcanestyniadau ariannol

	<p>mân anghysondebau fod yn amlwg. Mae'n debygol y bydd brandio cyson yn cael ei ddangos rhwng dwy neu fwy o elfennau'r cais.</p>	<p>cwsmeriaid a marchnata. Cysylltiadau cryf rhwng pob elfen o'r cais. Yn dangos yn glir y bydd y cyllid yn cefnogi'r ymgeisydd i gymryd y camau nesaf sydd eu hangen i ddechrau ei fusnes.</p>	<p>cryf a bydd y cais yn dangos yn glir bod modd gweithredu'r syniad ac yn dangos tebygolrwydd o fod yn fasnachol hyfyw. Mae'r cais yn 'barod am fuddsoddwr'.</p>
--	---	---	---